

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
Nos Iau 19 Gorffennaf 2018 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith a Gabrielle Wyn.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai- dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

3.2 Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i'w wneud.

3.3 Llwybr 59, Carreg Y Fedwen-y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i wneud y gwaith.

3.4 Adroddwyd bod angen gosod bin halen yn Bro Syr Ifor. Dim brys i'w osod ar hyn o bryd.

3.5 Mynydd Llandygai-ceir yn gyrru. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd bod angen mwy o arwyddion ar hyd y ffordd, ac hefyd rhwystrau cyflymder. Aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd yn fodlon cyfarfod ar y safle i drafod y problemau.

3.6 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Y clerc i holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith.

3.7 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

3.8 Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

3.9 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwannel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2018'

Cyflwynwyd: e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol-y Cyngor angen cyhoeddi datganiad taliadau a wneir i'r haelodau fel y nodir yn Atodiad 4 o adroddiad blynyddol y Panel. Y Clerc i anfon i'r Panel erbyn 30 Medi.

Cyflwynwyd: e-bost gan 'The Woodland Trust' – oes yna goeden yr hoffech roi ar y map? Penderfynwyd rhoi'r hysbyseb ar Facebook.

Cyflwynwyd: llythyr gan Mr & Mrs Smart-llythyr yn egluro bod eu llythyrau yn mynd i'r cyfeiriad anghywir yn dilyn newidiadau i'r ffin. Penderfynwyd ymateb mai nid mater i'r Cyngor Cymuned oedd hyn a bydd rhaid iddynt ysgrifennu at Y Post Frenhinol.

Cyflwynwyd: e-bost gan Cyngor Gwynedd-Gwasanaeth Ieuenctid- ychydig mwy o wybodaeth ynglŷn a'r trefniadau newydd i'r gwasanaeth. Penderfynwyd ymateb nad oedd digon o wybodaeth ar gael ynglŷn a be a ble fydd y gwasanaeth newydd yn y dyffryn.

Cyflwynwyd: e-bost Dan Bristow ynglŷn a'r cwrt tenis ym Mharc Meurig. Cais am arian i dalu am net. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i gyfrannu unwaith fydd y 'jet wash' wedi ei wneud.

Cyflwynwyd: e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn a nosweithiau gyda Cyngorau Tref a Chymuned yn ystod mis Hydref. Y Cyng. Huw Jones am fynychu.

5. Gwaith y mis

5.1 Lloches bws-holi os yw'n bosib gosod lloches wrth mynedfa pentref Llandygai (lle oedd y ciosg)

5.2 Llwybrau cyhoeddus-y Cyng. Dafydd Owen wedi anfon rhestr i'r contractwr.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd bod y gwaith trydanol wedi cael ei ymgymryd gan Jones & Whitehead-goleuadau yn y neuadd a peiriannau sychu dwylo i'r Ysgol Feithrin ac yn y 3 toiled. Adroddwyd hefyd bod y Clwb Ieuenctid wedi dechrau gwagio eu pethau o'r ganolfan. Bydd angen paentio dros y graffiti yn ystod yr haf.

Ysgol Llandygai- adroddwyd bod y llywodraethwyr wedi cael taith addysgiadol ac wedi ymweld â phob dosbarth.

Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai- y Cyng. Mair Jones a Iwan Hywel wedi cyfarfod gyda'r gwirfoddolwyr sydd am redeg y Clwb. Y Cyngor yn awyddus i helpu gyda'r broses cychwynnol i sefydlu'r clwb.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mehefin.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Bwrlwm Haf

£50.00

W H Lewis

£17.00

9. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb ar hyn o bryd.

10. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C18/0484/16/CR

Plas y Coed, Bangor
Newidiadau i'r caniatâd gwreiddiol er
caniatáu addasiadau mewnol ac
allanol

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0422/16/LL

Y Wern, 2 Pentref Llandygai, Llandygai
Codi tŷ deulawr, llecynnau parcio
ynghyd ac offer trin carthion

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0511/16/LL

2 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Creu estyniad llawr cyntaf yng nghefn
yr eiddo.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0528/16/CC

Dyma Fo, 16 Pentref Llandygai, Bangor
Gwaith i goed o fewn ardal gorchymyn
gwarchod coed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

NP3/16/10C

Fferm Pentre, Nant Ffrancon
Pâr o feudai-newid defnydd tir i
gynnwys 5 lle parcio, cadw
deunyddiau, gwaith peirianyddol a
tirlunio.

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

11. Ceisiadau Cynllunio
C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Gwrthwynebu-
siomedig iawn bod yr arwyddion yn
uniaith Saesneg.

C18/0533/16/LL

Uned 33, Ystad Ddiwydiannol
Llandygai, Bangor
Defnyddio tir ar gyfer storio agored i
gynnwys ail-proffilio'r tir, camerâu
CCTV, mynedfa newydd, ffens
diogelwch, 2 adeilad symudol ynghyd
a 2 storfa ail-gylchu a chadw beics

Penderfyniad: Cefnogi

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Gwrthwynebu,
oherwydd problem traffig a nifer o
geir yn y stad, ac hefyd bod angen
mwy o wybodaeth am y carthffosiaeth.

Ymgynghoriad cyn-cynllunio

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Gwrthwynebu, Cyngor
Cymuned Pentir yn bryderus am y
groesffordd yn berygl yn barod.

NP3/16/LB10D

Pentre Farm, Nant Ffrancon
Pâr o feudai, gosod dwy amlwyth
storio dros dro

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C18/0428/16/CR

Penrala Cottage, Tregarth
Addasiadau allanol i dy annedd
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad,
ond mae angen palmant i gysylltu'r

Lôn Las rhwng Canolfan Tregarth a
Pandy.

12. Unrhyw fater brys arall
Dim i'w drafod.